

Mae eglwys y Santes Fair yn dyddio gan mwyaf o'r 15fed ganrif, er ceir y cyfeiriad cyntaf ati yn y Norwich Taxation yn 1254, ac ma'n siambr sengl heb raniad rhwng y corff a'r gangell. Cafodd ei hadnewyddu gan Henry Kennedy yn 1857 a'i breinio i'r Friends of Friendless Churches yn 2002. Efallai bod yr enw Derwen yn cyfeirio at goeden o bwys a allai fod yn yr ardal yn y cyfnod paganaidd.



Tu allan


Adeiladwyd yr eglwys o garreg rud lleol gyda tho llechen – ar wahân i'r coch nodweddiadol ar gyfer y darnau o amgylch ffenestr a drws i'r de sydd yn dod o ddefnyddio tywodfaen Sir Gaer. Ar un adeg roedd y muriau allanol wedi eu gwyngalchu. Dyddir y ffenestri yn bennaf i'r cyfnod Perpendicwlar (15fed ganrif), gan gynnwys y ffenestr ddeheuol 5 golau gymhleth. Cafodd y bargodiad bychan ar yr ochr ogleddol ei ychwanegu gan Kennedy yn 1857 ac ma'n cynnwys y grisiau i llofft y grog. Ceir dwy gloch yn y clochdy; wedi ei ddyddio i 1668, mae wedi ei goroni gan geiliog y gwynt o'r 18fed ganrif hwyr, a ddiogelwyd yn 2008. Ar un o'r clychau ceir yr arysgrif 1751, Luke Ashton, Wigan. Mae bwtres anferth yn cynnal y mur gorllewinol a'r clochdy. Mae'r fynedfa i'r eglwys trwy'r porth deheuol, sy'n cynnwys cawg dŵr sanctaidd. Ymddengys bod y drws deheuol yn dyddio o ganol y 13eg ganrif.

Tu mewn

Prif nodwedd yr eglwys yw'r sgrin groglen hardd, sy'n gwahanu'r corff o'r gangell. Yn anarferol, mae llofft y grog wedi goroesi: yn y llofft, cyn y Diwygiad, fyddai'r grog ei hun – sef ffigur Grist ar y groes, gyda ffigurau'r Forwyn Fair ac Ioan Efengylwr o boptu iddi. Gellir gweld y soced ar gyfer y groes. Mae'r trawstiau sy'n cynnal y llofft wedi eu cerfio'n goeth, ac yn yr un modd y rhwyllwaith ar baneli'r groglen a'r llofft. Byddai'r groglen wedi cael ei pheintio'n goeth ar un adeg: fel arfer byddai'r paneli is yn cynnwys darluniau o'r saint neu o'r Apostolion. Mae'r cyfan yn dyddio o ddiwedd y 15fed neu yn gynnar yn yr 16eg ganrif. I fyny grisiau carreg ar yr ochr ogleddol fyddai'r mynediad i'r llofft ond ni chaniateir mynd yno erbyn hyn. Ymddengys mai dyddio o'r 15fed ganrif y mae nenfwd rhwymau bwaog y corff a'r gangell. Dyddir y bedyddfaen i 1665 gyda chlawr cyfoes. Ers talwm roedd meinciau agored a galeri gorllewinol. Mae'r seddi, y pulpud a'r allor presennol oll yn dyddio o'r 19eg ganrif.



Bedyddfaen



Croglen a manylion o'r gwaith cerfio ar y swmer

Ceir cist y plwyf ar ffurf 'dugout', o bosib yn dyddio o'r 14eg neu'r 15fed ganrif. Dyluniwyd y gwydr lliw yn y ffenestr dde mwyaf gorllewinol yn y gangell gan H.E. Wooldridge a chafodd ei wneud gan James Powell & Sons (1869). Mae'n dangos Geni, Atgyfodi a Dyrchafael Crist. Ar y ffenestr gyfagos ceir darlun o Grist gyda dau sant (1860), y santes efallai yn Santes Cecilia, a'r sant yn un o'r Efengylwyr. Mae ganddo arysgrif Cymraeg. Yn y gangell ceir sawl cofadail mur yn dyddio o'r 18fed–20fed ganrif: mae'r un ar y mur gogleddol i Catherine Williams (bu farw 1744, yn 94 mlwydd oed) yn ddiddorol gan iddo ddefnyddio marmorau o wahanol liwiau ond bod un o'r yrnau mewn paent yn unig.



Gwydr lliw wedi ei ddylunio gan H.E. Wooldridge



Coflech i Catherine Williams

Mynwent yr Eglwys

Ceir yn y fynwent, sydd bron yn grwn (nid yw'n eiddo i'r Friends) groes, yn dyddio o'r 15fed ganrif. Yn y cilfachau tua'r brig cedwir ffigurau cerfiedig o Goron'r Forwyn (dwyrain); y Croeshoeliad (gorllewin); y Forwyn a'r Plentyn (gogledd); yr archangel Sant Mihangel, yn pwysio eneidiau ar Ddydd y Farn (de). Ar y border deheuol ceir porth y fynwent gynt, ei borth bwaog wedi ei lenwi pan ddaeth yr adeilad yn ysgol y pentref.



Sant Mihangel yr Archangel, o groes y fynwent



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fyddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgyrsiau, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.


Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Eglwys Santes Fair Derwen

cyflwyniad i'w hanes

 FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES 